

BETH I'W DDISGWYL YN YSTOD AROLYGIAD

AROLYGIADAU O BRACTISAU DEINTYDDOL

Cyflwyniad

Mae'r 'Safonau Iechyd a Gofal', a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015, yn safonau sy'n berthnasol i wasanaethau iechyd y GIG o bob math a maint yng Nghymru. Mae'r safonau hyn "wedi'u cynllunio i helpu i sicrhau bod pobl yn cael argraffiadau cyntaf o'r gwasanaeth iechyd sy'n gadarnhaol ac yn barhaol; eu bod yn derbyn gofal mewn amgylcheddau diogel, cefnogol ac iachusol; a'u bod yn deall ac yn cymryd rhan yn eu gofal" (Safonau Iechyd a Gofal, Ebrill 2015).

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn defnyddio'r safonau hyn i arolygu gwasanaethau iechyd, gan gynnwys practisau deintyddol cyffredinol.

Rhaid i'r holl bractisau deintyddol yng Nghymru sy'n darparu triniaethau deintyddol preifat fod wedi cofrestru ag AGIC neu fod wedi cyflwyno cais i gofrestru gyda ni cyn 1 Ebrill 2018. O dan y ddau amgylchiad, mae'r practis yn ddarostyngedig i ystyriaeth o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Mae'r daflen wybodaeth hon wedi'i dylunio i'ch helpu chi i ddeall sut rydym yn cynnal ein harolygiadau o bractisau deintyddol cyffredinol.

Y Tîm Arolygu

Cynhelir ein harolygiadau gan reolwr arolygu AGIC ynghyd ag o leiaf un adolygydd allanol sy'n ddeintydd profiadol (adolygydd cymheiriaid deintyddol). Fel arfer, bydd y tîm ar y safle yn y practis am un diwrnod.

Canolbwynt ein harolygiadau

Bydd yr arolygiad yn edrych ar y polisiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn y practis deintyddol, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer staff; yr adeilad mewnol ac allanol; offer, gan gynnwys cyfarpar radiograffig, cyfarpar archwilio'r geg yn allanol, a chyfarpar dadebru; cyffuriau; dadheintio offerynnau deintyddol; gwastraff peryglus; sut mae'r practis yn cadw at ddarpariaethau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05; a'r cyfleusterau clinigol. Bydd yr arolygwyr hefyd yn edrych ar sampl o gofnodion

cleifion ac yn sgwrsio â chleifion i gasglu eu barn ar eu profiad yn y practis. Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud yn ystod arolygiadau deintyddol ar wefan AGIC – www.agic.org.uk

Mae ein harolygiadau yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl.

Cyn arolygiad

Bydd AGIC yn cysylltu â chi yn ysgrifenedig i'ch hysbysu am ddyddiad yr arolygiad.

Bydd AGIC yn amgáu **llyfryn cyn arolygiad y bydd disgwyl i bractisau ei gwblhau cyn ein harolygiad**. Bydd y llyfryn yn cynnwys archwiliad o ffeiliau staff, polisïau a gweithdrefnau a rhestr wirio o ddogfennau allweddol eraill y bydd angen i'n tîm arolygu gael mynediad atynt. Mae'n rhaid i'r practis gwblhau'r llyfryn a sicrhau ei fod yn barod ar gyfer y tîm arolygu wrth gyrraedd.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, bydd angen i'r tîm arolygu dreulio amser gydag amrywiaeth o aelodau o dîm y practis, a fydd yn gallu ateb ein cwestiynau a'n cyfarwyddo o ran y polisïau a gweithdrefnau y bydd angen inni eu gweld a'u trafod, er mai dim ond am gyfnod penodol o'r diwrnod y bydd angen i bob aelod o staff fod ar gael.

Os na fydd rhai aelodau allweddol o staff ar gael ar ddiwrnod ein hymweliad arolygu arfaethedig, bydd yr arolygiad yn dal i fynd rhagddo yn unol â'r amserlen. Os yw'r practis yn darparu gwasanaeth deintyddol preifat, mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig fod yn bresennol, fel y mae Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei nodi, ac ar gael i gyfarfod â ni am gyfnod penodol o'r diwrnod.

Rydym yn disgwyl y bydd staff clinigol yn dal i redeg yr ystafelloedd triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad. Bydd angen i'r adolygydd cymheiriaid deintyddol edrych ar bob ystafell driniaeth ac unrhyw gyfleusterau clinigol eraill, gan gynnwys yr ardal(oedd) a ddefnyddir ar gyfer dadheintio. O ganlyniad, sicrhewch fod yr ardaloedd hyn i gyd ar gael, a bod pob un ar gael ar ryw adeg benodol **yn ystod bore** ein hymweliad arolygu.

Bydd angen i'r deintydd yn y tîm arolygu edrych ar gofnodion cleifion fel rhan o'r arolygiad, a dylid gwneud trefniadau i hwyluso hyn. Bydd angen inni gael mynediad at gyfrifiadur os yw cofnodion yn ddigidol, ac efallai y bydd angen i aelod o staff ein helpu i gael mynediad at y cofnodion hyn. Os yw'r cofnodion ar bapur, bydd angen inni gael mynediad atynt a digon o le inni allu eu hadolygu.

Bydd AGIC yn anfon copïau dwyieithog o'n holiadur i gleifion i'r practis, er mwyn ichi ei ddosbarthu i gleifion fel bod ganddynt y cyfle i gwblhau'r holiadur cyn ac ar ddyddiad yr arolygiad. Lle y bo'n bosibl, bydd AGIC hefyd yn treulio amser yn siarad â chleifion ar ddiwrnod yr arolygiad, er mwyn gwrando ar eu safbwyntiau. Byddwn yn cynnwys sylwadau cleifion yn ein hadborth ac yn ein hadroddiad arolygu.

Darparwch flwch er mwyn i gleifion gyflwyno eu holiaduron wedi'u cwblhau. Gweler ynghlwm poster y gellir ei arddangos yn y practis, sy'n hysbysu cleifion ynghylch ein harolygiad sydd ar ddod ac yn gofyn iddynt gwblhau holiadur.

Lle bo'n bosibl, dylai'r practis sicrhau bod ystafell/gofod addas ar gael i'r tîm arolygu ei ddefnyddio yn ystod yr arolygiad.

Oddeutu wythnos cyn yr arolygiad, bydd y rheolwr arolygu o AGIC a fydd yn arwain yr arolygiad yn cysylltu â'r practis i ateb unrhyw gwestiynau ac i wirio'r trefniadau ar gyfer diwrnod yr arolygiad.

Yn ystod arolygiad

Pan fyddwn yn cyrraedd, byddwn yn cyflwyno ein hunain ac yn dangos ein manylion adnabod.

I ddechrau, byddwn yn treulio amser yn siarad â rheolwr y practis i gael trosolwg o'r practis a chael taith o amgylch yr adeilad.

Yn ystod yr arolygiad, byddwn yn treulio amser yn arsylwi ac yn siarad â'r tîm rheoli a staff o bob lefel; boed yn glinigol neu'n anghlinigol. Oherwydd ei bod yn bwysig bod y practis yn cael ei redeg yn unol â'r arfer, dylai staff barhau i weithio yn unol â'r arfer lle bo hynny'n bosibl. Byddwn yn croesgyfeirio'r hyn y byddwn yn ei weld a'i glywed ochr yn ochr â'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn y practis, cofnodion cleifion, a gwybodaeth arall fel y bo angen.

Byddwn yn edrych am dystiolaeth ynglŷn â'r ffordd y mae'r practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) ac, os darperir gofal deintyddol y GIG, pa mor dda rydych yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal. Pan welwn dystiolaeth o arfer da neu dystiolaeth sy'n nodi nad yw safonau yn cael eu bodloni, byddwn yn cofnodi hynny ac yn ei gynnwys yn ein hadroddiad.

Unwaith y bydd arolygwyr wedi gorffen casglu tystiolaeth, bydd rheolwr arolygu AGIC yn trefnu sesiwn adborth ar lafar. Bydd y rheolwr arolygu yn crynhoi canfyddiadau'r arolygiad, a darparu adborth lefel uchel. Dylai'r practis benderfynu pwy ddylai fod yn bresennol yn ystod y sesiwn hon. Mae'r sesiwn hon yn gyfle i drafod ac egluro unrhyw argymhellion y mae'r practis yn ansicr ohonynt. Argymhellir bod y practis yn cymryd rhan lawn yn y sesiwn adborth hon. Cewch eich hysbysu (cymaint ag sy'n bosibl) ynghylch problemau brys a phroblemau nad ydynt yn broblemau brys yn ystod y sesiwn hon.

Ar ôl arolygiad

Byddwn yn codi unrhyw bryderon uniongyrchol yn ymwneud â diogelwch cleifion yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad. Yn ogystal, efallai y byddwn yn ysgrifennu at y practis o fewn dau ddiwrnod i'r arolygiad yn gofyn iddynt gyflwyno cynllun gwella ar unwaith sy'n amlinellu'r camau maent wedi eu cymryd/maent yn eu cymryd o fewn wythnos i dderbyn y llythyr hwn. Pan ddarperir deintyddiaeth breifat, cyhoeddir llythyr a rhybudd diffyg cydymffurfio. Diben y broses hon yw sicrhau bod y practis yn mynd i'r afael â'n pryderon ar unwaith, neu'n rhoi mesurau dros dro ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu hamddiffyn. Caiff copi o'r llythyr hwn ei anfon at y bwrdd iechyd lleol ac adran ansawdd a diogelwch Llywodraeth Cymru (os oes contract deintyddol y GIG ar waith).

Caiff adroddiad drafft ei ysgrifennu a'i anfon ymlaen at y practis trwy borth diogel Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru oddeutu un mis yn dilyn yr ymweliad arolygu. Os nad oes cyfeiriad e-bost gan y practis, gwneir trefniadau amgen. Disgwylir i'r practis wirio'r adroddiad hwn o ran cywirdeb ffeithiol. Nid yw hwn yn gyfle i'r practis herio unrhyw gasgliadau a nodir yn yr adroddiad, ond yn hytrach yn gyfle i sicrhau bod yr adroddiad yn ffeithiol gywir. Ni ddylai'r adroddiad gynnwys unrhyw beth annisgwyl, oherwydd y byddwch wedi cael cyfle i drafod unrhyw faterion a nodwyd/argymhellion yn ystod y sesiwn adborth ar ddiwedd y diwrnod arolygu.

Os gwneir argymhellion yn yr adroddiad, bydd gofyn i chi gwblhau cynllun gwella i ddweud wrthym sut byddwch yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr arolygiad. Mae'n bwysig bod y ddogfen hon yn cael ei chwblhau'n llawn a'i dychwelyd atom ymhen pythefnos. Bydd AGIC yn asesu p'un a yw'r gweithredoedd rydych chi'n bwriadu eu rhoi ar waith yn rhoi digon o sicrwydd i ni, a byddwn yn cadarnhau hynny i chi.

Rydym yn mynnu eich bod yn cyflwyno'r holl gynlluniau gwella ac ymatebion sicrwydd ar unwaith i ni yn electronig mewn **fformat Word**. Bydd hyn yn ein galluogi i gyhoeddi'r wybodaeth ar ein gwefan, ynghyd â'r adroddiad y byddwn wedi ei ysgrifennu.

Yna, bydd yr adroddiad arolygu yn cael ei gwblhau a byddwn yn anfon copi at y bwrdd iechyd.

Caiff yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi ar wefan AGIC yn Gymraeg ac yn Saesneg, ynghyd â'r cynllun gwella cyflawn a ddarparwyd gennych, dri mis ar ôl dyddiad yr arolygiad.